

Menter Caerdydd

Proffil Iaith 2016

Mai 2016

www.Cwmni2.cymru

www.nico.cymru

1. Cyflwyniad

Mae'r proffil hwn yn edrych ar sefyllfa'r Gymraeg yn Ninas a Sir Caerdydd, a'r ffordd mae siaradwyr Cymraeg yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Y nod yw edrych ar gyd-destun y Gymraeg heddiw yn yr ardal fel bod modd ystyried sut i gynyddu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd yn cynorthwyo'r Fenter i gynllunio'n strategol a gweithredu fel partner dylanwadol wrth i sefydliadau orfod ateb y gofynion statudol sydd arnynt o ran y Gymraeg yn eu hardaloedd.

**Mae gan
Gaerdydd
36,735 o
siaradwyr
Cymraeg, sef
11.1% o'r
boblogaeth**

Seiliwyd y proffil hwn ar ystadegau Cyfrifiad 2011; Arolwg Defnydd Iaith 2013-15, Llywodraeth Cymru; Cyfrifiad Lefel Disgyblion Ysgolion Cymru 2015, Llywodraeth Cymru; Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned: Astudiaeth Ymchwil, Prifysgol Bangor 2015; gan gyfeirio hefyd at ganlyniadau arolwg a gynhaliwyd yn ardaloedd Mentrau'r De Ddwyrain yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2016, gyda 733 o ymatebion.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Cyd-destun.....	3
3. Siaradwyr Cymraeg Caerdydd	10
4. Defnyddio'r Gymraeg.....	14
<i>i Yn y cartref.....</i>	<i>17</i>
<i>ii Y Gymuned.....</i>	<i>19</i>
<i>iii Addysg.....</i>	<i>23</i>
<i>iv Dysgu Cymraeg.....</i>	<i>26</i>
<i>v Gweithle.....</i>	<i>28</i>
<i>vi Sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.....</i>	<i>31</i>
<i>vii Cyfryngau Cymdeithasol.....</i>	<i>34</i>
5. Casgliad.....	36
6. Argymhellion.....	38
7. Adnoddau Defnyddiol	42

2. Cyd-destun

Mae Caerdydd yn brifddinas ifanc ac yn ganolfan amlwg i ddiwylliant, chwaraeon, busnes a llywodraethiant. Mae'n ardal drefol/ddinesig yn bennaf a dyma'r ardal fwyaf poblog yng Nghymru a'r ardal sydd wedi gweld y twf mwyaf mewn poblogaeth rhwng 2001-2011, sef 12%. Mae disgwyl iddi dyfu'n llawer cyflymach nag unrhyw ardal arall yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf gyda thwf arfaethedig o 26% rhwng 2013-2034. Mae hefyd yn ddinas â llawer o bobl ifanc yn byw ynndi, gyda mwy na 25% o drigolion y ddinas rhwng 15-29 oed. Dim ond 13% o'i phoblogaeth sydd dros 65 oed, sef y gyfran isaf yng Nghymru.

Sefydlwyd Menter Caerdydd yn 1998 er mwyn hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd drwy greu cyfleoedd a gwasanaethau i drigolion y ddinas fel bod yr iaith yn rhan ganolog o'u bywydau. Bellach mae gan y Fenter dîm o 8 aelod o staff parhaol dan arweiniad y prif weithredwr.

Mae'r Fenter yn canolbwyntio ei gwaith craidd ar bum maes yn benodol sef:

- Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cryfhau'r Gymraeg a'i defnydd ymysg teuluoedd
- Cryfhau'r Gymraeg ymysg pobl ifanc 16 – 24 oed drwy wasanaethau economaidd
- Datblygu gwyliau Cymraeg i godi ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg
- Sicrhau platfform amlwg i'r iaith Gymraeg ar lefel ddigidol

Drwy ganolbwyntio ar y meysydd hyn mae'r Fenter yn cwmpasu prif flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd o ran y Gymraeg, sef y teulu, plant a phobl ifanc, y gymuned a'r gweithle.

Prif gyllidwyr y Fenter yw Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Caerdydd ac yn ogystal â'r rhanddeiliaid allweddol hyn, mae'r Fenter yn gweithio gyda rhyw 80 o bartneriaid lleol a

chenedlaethol ac mae'r Fforwm Iaith yn gyfrwng rheolaidd i ddwyn y prif bartneriaid ynghyd i rannu gwybodaeth a chyd-gynllunio.

Agorwyd yr Hen Lyfrgell ar 25 Chwefror 2016 mewn partneriaeth gydweithredol dan arweiniad Menter Caerdydd, rhwng Cyngor Caerdydd, Llywodraeth Cymru ac Amgueddfa Stori Caerdydd. Y nod yw creu canolfan yng nghanol y ddinas i ddathlu, hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg gan gynnig ystod o weithgareddau a darpariaethau i ddenu pobl o bob oed, boed yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg.

Mae'r Fenter, gyda'i phartneriaid yn y Fforwm Iaith sirol, yn gweithredu fel ffynhonnell o arbenigedd o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardal. Mae'n bartner allweddol i'r Cyngor o ran ei gynorthwyo i wireddu'r nod o gynnal a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd i ddod.

Yn ogystal â chynyddu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ehangu eu defnydd o'r iaith yn eu bywydau bob dydd, bydd angen i'r Cyngor ynghyd â'i bartneriaid gynllunio'n strategol ar gyfer yr hirdymor i gynyddu nifer ei siaradwyr. Yn rhanbarth y de ddwyrain, mae cynyddu cyfleoedd addysg Gymraeg yn hanfodol, a law yn llaw â hynny, mae angen sicrhau bod gan y gweithlu dwyieithog sy'n cael ei greu, gyfle i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y byd gwaith. Elfen bwysig arall yw denu pobl i ddysgu'r iaith o'r newydd ac i fagu hyder yn y sgiliau sydd ganddynt ar ba lefel bynnag, ac mae dilyniant a chefnogaeth yn hollbwysig i hyn.

O ran y cyd-destun polisi a deddfwriaeth mae'r Fenter Iaith yn gweithredu ynddo, mae ffocws cenedlaethol amlwg ar y Gymraeg mewn sawl maes, ac mae cyfrifoldeb ar yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd ac eraill i gwrdd â'r gofynion hyn yn lleol. Dyma'r prif rai:

Cynlluniau iaith a Safonau'r Gymraeg

Caiff cynlluniau iaith Gymraeg eu disodli gan drefn newydd o ofynion a ddaw i rym yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ogystal â rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg, mae'r Mesur, drwy reoliadau, yn gosod safonau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfrif yng Nghymru.

Yn eu plith mae safonau hybu (safonau rhif 145 a 146) sy'n golygu bod angen i Gyngor Dinas Caerdydd:

- Pennu targedau i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd yn ehangach yn yr ardal, a chynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
- Cyhoeddi canlyniadau hyn yn ogystal â rhestr o weithgareddau sydd wedi'u trefnu neu eu hariannu i hybu defnyddio'r Gymraeg.

Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg 2012-17: *Iaith fyw: iaith byw*

Cyhoeddodd y Llywodraeth ddatganiad polisi *Bwrw Mlaen* ym mis Awst 2014 sy'n adeiladu ar *Iaith fyw: iaith byw*. Ochr yn ochr â'r dyletswyddau statudol ar y Cyngor, y Bwrdd Iechyd ac eraill o dan Safonau'r Gymraeg, yn y ddogfen hon, mae'r Llywodraeth yn nodi ei ffocws hyd at 2017, sef:

- yr economi a'r Gymraeg
- cynllunio strategol gwell ar gyfer y Gymraeg
- y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned
- newid ymddygiad ieithyddol.

Fel rhan o'r nod o gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, mae'r Llywodraeth yn nodi ei disgwyliadau ar gyfer Mentrau Iaith Cymru, sef eu bod yn:

- hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith trigolion, cymdeithasau a sefydliadau lleol
- bod yn gyfnewidfa gwybodaeth sirol a lleol
- adnabod anghenion a chydweithio gyda'r awdurdodau lleol ac yn sgil hynny sicrhau darpariaeth yn unol â strategaethau iaith sirol
- cynnal prosiectau penodol i ateb yr anghenion lleol a, lle bo'n briodol, gefnogi cymunedau penodol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhestru saith o nodau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Yn eu plith mae sicrhau '*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*'.

Yn ôl Llywodraeth Cymru: "*Bydd y cynlluniau lles rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol eu paratoi yn sgil Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ffordd bwysig o sicrhau bod y nod o weld y Gymraeg yn ffynnu yn ystyriaeth ganolog o fewn polisi cyhoeddus yn y dyfodol.*"

Mwy na Geiriau

'Mwy na geiriau...' yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Nod y targedau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i wella eu gwasanaethau Cymraeg yw ateb gofynion ieithyddol pobl gan wella ansawdd y gofal.

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013)

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod awdurdodau lleol yn ymateb i'r targedau a osodwyd yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg:

- mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- mwy o fyfyrwyr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o fyfyrwyr 16-19 yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer Cyngor Dinas Caerdydd (2014-2017), mae'r Cyngor yn nodi'r canlynol:

'Rydym o'r farn fod addysg Gymraeg sy'n dechrau ym mlynnyddoedd cynnar addysg plentyn, ynghyd â dilyniant a chynnydd ieithyddol drwy'r holl gyfnodau allweddol, yn cynnig yr amodau mwyaf ffafrinol i ddatblygu plant a phobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog. Mae awdurdod lleol Caerdydd yn cynllunio'n strategol i gynyddu nifer y rheini sy'n ddwyieithog mewn ystod eang o sgiliau iaith Gymraeg. Mae addysg Gymraeg yn parhau i dyfu'n gyflym yn y ddinas ac mae cynnal a chodi safonau ymhellach o ran dysgu ac addysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf, ac ar draws yr holl gwricwlwm ysgol, yn flaenoriaeth.

Disgwyliwn weld cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n derbyn eu haddysg yn Gymraeg (yn y sectorau cynradd ac uwchradd) a chaiff hyn ei fesur ar ddiwedd blynyddoedd 2, 6 a 9 yn Gymraeg (iaith gyntaf). Yn yr hirdymor bydd hyn yn arwain at gynydd yn nifer y dysgwyr sy'n astudio yn Gymraeg ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol.'

Cymunedau'n Gyntaf

Nod rhaglen Cymunedau'n Gyntaf gan Lywodraeth Cymru yw gwella iechyd, llewyrch a mynediad i addysg a dysgu gan helpu'r bobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r Llywodraeth wedi nodi pwysigrwydd partneriaethau allweddol yn y cyswllt hwn. Yn ei hymateb i'r Adolygiad ar waith y Mentrau Iaith (Mawrth 2014) ac yn benodol yr argymhelliad *'dylid cryfhau'r berthynas rhwng y sefydliadau a sefydliadau datblygu cymunedol megis Cymunedau'n Gyntaf'*, mae'n nodi:

Cytunwn fod lle i gryfhau'r berthynas rhwng sefydliadau sy'n hybu'r Gymraeg a sefydliadau datblygu cymunedol. Mae hynny'n cynnwys Cymunedau'n Gyntaf yn ogystal â sefydliadau megis awdurdodau lleol a chyryff trydydd sector sy'n gweithio yn y maes datblygu cymunedol ac adfywio.

Mae cyswllt amlwg rhwng cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a rhaglenni trechu tlodi fel Cymunedau'n Gyntaf a Dechrau'n Deg, ac mae'r Llywodraeth yn disgwyl i glystyrau Cymunedau'n Gyntaf Caerdydd feithrin perthynas gyda'r Fenter am gyngor a chefnogaeth ar y ffordd orau o ddatblygu defnydd yr iaith, ynghyd â gweithredu'n ddwyieithog.

Cynllun Gweithredu Caerdydd Ddwyeithog 2014-2017

Nod strategaeth Cyngor Caerdydd yw dileu'r rhwystrau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan hybu dwyieithrwydd fel rhywbeth hollol naturiol a sicrhau balchder o'r ddwy iaith swyddogol yn y ddinas er mwyn sicrhau bod eu gweledigaeth o Gaerdydd sydd yn gynyddol ddwyieithog yn cael ei gwireddu.


Strategaeth 2010:2020 Cyngor Caerdydd

Nod y strategaeth yw creu lle gwyh i fyw, gweithio a chwarae i blant a phobl ifanc. Mae hefyd yn golygu sicrhau mynediad i amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod Caerdydd yn ddinas ddwyieithog, ac yn ymrwymedig i

barhau i ddarparu ar gyfer y galw cynyddol am wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

3. Siaradwyr Cymraeg Caerdydd

Mae'r map hwn yn dangos sgiliau Cymraeg pobl yn ardal Caerdydd yn 2011:



Dangosir canrannau o fewn ardaloedd cynnyrch Cyfrifiad 2011, o fewn adrannau etholiadol

Crëwyd gan Hywel Jones. Cywirwyd newidynnau KS208WA0022-27

Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013; Yn cynnwys data Arolwg Ordians © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013

Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn dangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ers 2001. Er y gostyngiad hwn ar draws Cymru ac yng nghanran siaradwyr Cymraeg rhanbarth y de ddwyrain ei hun, gwelwyd cynnydd yn nifer a chanran siaradwyr Cymraeg Caerdydd.

Tabl 1: Cymhariaeth yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011

	Yn gallu siarad Cymraeg Nifer		Yn gallu siarad Cymraeg Canran o'r boblogaeth	
	2001	2011	2001	2011
Caerdydd	32,504	36,735	11	11.1
Rhanbarth	173,445	174,782	11.6	10.9
Cymru	582,368	562,016	20.8	19.0

Tabl 2: Canran siaradwyr Cymraeg Cymunedau Caerdydd o Gyfrifiad 2001 i 2011

Cymuned	2001	2011	Gwahaniaeth
Treganna	15.6	19.1	3.5
Yr Eglwys Newydd	13.5	15.3	1.8
Pontprennau	9.5	11.1	1.6
Sain Ffagan	11.5	13.0	1.5
Hen Laneirwg	6.8	8.3	1.5
Butetown	8.3	9.6	1.3
Grangetown	8.9	10.2	1.3
Pentyrch	19.6	20.5	0.9
Cathays	9.8	10.6	0.8
Llys-faen	10.1	10.7	0.6
Pen-y-lan	12.1	12.7	0.6
Cyncoed	11.6	12.1	0.5
Ystum Taf	10.8	11.2	0.4
Y Tyllgoed	9.5	9.8	0.3
Riverside	13.4	13.7	0.3
Rhiwbeina	12.8	12.9	0.1
Llandaf	15.4	15.3	-0.1
Gabalfa	10.8	10.6	-0.2
Y Mynydd Bychan	12.1	11.7	-0.4
Tongwynlais	12.1	11.7	-0.4
Llanisien	11.1	10.6	-0.5
Caerau	9.3	8.6	-0.7
Tredelerch	8.4	7.7	-0.7
Pen-twyn	8.7	7.9	-0.8
Y Sblot	9.4	8.6	-0.8

Adamsdown	9.3	8.4	-0.9
Trelái	9.8	8.8	-1.0
Trowbridge	9.0	8.0	-1.0
Radur a Phentre-poeth	15.5	13.3	-2.2
Y Rhath	12.1	9.8	-2.3
Castell	10.5	6.5	-4.0

Tabl 3: Y 5 cymuned lle ceir y nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn 2011

Cymuned	Nifer	Canran
Treganna	2652	19.1
Yr Eglwys Newydd	2109	15.3
Riverside	1808	13.7
Cathays	1882	10.6
Grangetown	1867	10.2

Tabl 4: Cymhariaeth yn niferoedd/canrannau ar draws pob ystod oedran –rhwng 2001 a 2011 yng Nghaerdydd

Grŵp oedran	% siaradwyr Cymraeg 2001	% siaradwyr Cymraeg 2011	Nifer siaradwyr Cymraeg 2001	Nifer siaradwyr Cymraeg 2011
Pawb (dros 3)	11.0	11.1	32,504	36,735
3-4 oed	11.1	15.1	875	1290
5-9 oed	24.3	27.1	4835	4897
10-14 oed	31.0	31.4	6335	5812
15-19 oed	18.2	18.1	4010	4682
20-24 oed	11.4	10.2	2797	3952
25-29 oed	11.4	10.2	2517	3122
30-34 oed	9.2	9.6	2136	2433
35-39 oed	7.7	9.1	1763	2023
40-44 oed	6.5	8.1	1302	1814
45-49 oed	6.3	6.6	1134	1485
50-54 oed	6.0	5.4	1098	1102
55-59 oed	6.2	5.6	877	979
60-64 oed	5.0	5.1	616	845
65-69 oed	4.8	5.8	561	702
70-74 oed	4.6	4.9	506	517
75-79 oed	5.0	4.5	507	406
80+ oed	5.5	4.9	635	674

Mae cynnydd amlwg o ran y blynyddoedd cynnar a phlant – gwelir bod canran y siaradwyr yn uwch ymhlith y rhai 3-14 oed nag ymhlith cenhedlaeth eu rhieni (carfan 25-49 oed). Mae grŵp oedran 5 i 14 yn cynrychioli disgyblion ysgol – dyma’r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg.

4. Defnyddio'r Gymraeg

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ganlyniadau arolwg 'Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru' (yr Arolwg Defnydd). Hefyd, yn 2015 cyhoeddodd Prifysgol Bangor ganlyniadau eu hastudiaeth ymchwil ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau yng Nghymru, ac mae'r ddwy astudiaeth hon yn rhoi data a darlun gwerthfawr o'r ffordd y mae pobl yn defnyddio'r iaith.

Rhwng arolwg defnydd 2004-6 ac un 2013-15, mae Caerdydd wedi gweld cynnydd o 7,100 o siaradwyr rhugl a chynnydd o 16,700 o siaradwyr nad ydyn nhw'n rhugl.

Mae'r Arolwg Defnydd yn dangos mai pobl rugl sydd fwyaf tebygol o fod yn siarad Cymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd. Hefyd, yn ôl yr Arolwg Defnydd, mae siaradwyr Cymraeg rhugl ddwywaith yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol yn Gymraeg na phobl sydd ddim yn rhugl.

Mae'r Arolwg Defnydd hefyd yn dangos bod canran y bobl yn ardal Caerdydd sy'n siarad y Gymraeg bob dydd wedi cynyddu o 44% i 48%.

Fel rhan o'r gwaith o lunio'r proffil hwn cynhaliwyd arolwg o siaradwyr Cymraeg y de ddwyrain rhwng 12 Chwefror a 11 Mawrth 2016. Rhannwyd holiadur byr yn electronig ac ar bapur gan bob Menter yn y rhanbarth. Prif nod yr arolwg oedd dysgu am brofiadau siaradwyr Cymraeg yr ardal a'r cyfleoedd sydd ganddyn nhw i ddefnyddio'r Gymraeg.

Roedd 73% o ymatebwyr Caerdydd yn ferched ac roedd 60.5% o bawb a ymatebodd yn ardal Caerdydd rhwng 26-50 oed.

Ymatebodd 733 o bobl i'r holiadur. O'r ymatebion hynny, daeth 30% o ardal Caerdydd. Rhaid cadw mewn golwg nad yw'r rhai a ymatebodd yn gynrychioliadol o holl siaradwyr Cymraeg yr ardal. Drwy restr bostio'r Fenter yr hyrwyddwyd yr holiadur yn bennaf a thybiwn felly mai carfan o siaradwyr Cymraeg yr ardal yw'r rhain, sydd eisoes â rhyw fath o gyswllt cefnogol neu barodrwydd i ymwneud â'r Fenter. Serch hynny, dyma gynulleidfa naturiol

y Fenter, ac mae'r ymatebion yn ddefnyddiol o safbwynt cynllunio ar eu cyfer.

Roedd 92% o'r rhai o ardal Caerdydd a ymatebodd i'r holiadur yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.


I 80% o ymatebwyr Caerdydd, roedd y Gymraeg yn rhan o'u bywydau bob dydd, y rhan fwyaf o'r amser.

Yn ardal Caerdydd a'r de ddwyrain i gyd, er bod llawer o'r ymatebwyr yn dweud bod y Gymraeg yn rhan o'u bywydau bob dydd, roedd mwyafrif y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref neu gyda ffrindiau. Yn yr ardal hon rhaid chwilio am gyfleoedd y tu hwnt i hynny, ac er bod amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol ar gael, mae'r diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau/cyswllt anffurfiol o ddydd i ddydd mewn cylchoedd ehangach na'r siaradwyr Cymraeg rydyn ni'n eu hadnabod yn golygu nad yw'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei normaleiddio ar lefel gymunedol. Mae hyn yn ei dro yn golygu ei bod hi'n anodd iawn sicrhau cynnydd mewn defnydd.

Yr her i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid felly yw targedu ymdrechion i'r meysydd ehangach hyn; sefydlogi ac ehangu cyfleoedd i siaradwyr rhugl; datblygu hyder pobl sydd ddim yn rhugl a hwyluso dulliau o'u cynnwys; hyrwyddo defnydd pellach mewn gweithleoedd ac o ran sefydliadau a busnesau sy'n wynebu'r cyhoedd i'w gwneud hi'n haws defnyddio'r Gymraeg mewn meysydd anghyfarwydd neu newydd.

Mae canlyniadau'r arolwg ymhlith siaradwyr Cymraeg y de ddwyrain yn crisialu pa mor aml gaiff siaradwyr Cymraeg Caerdydd gyfle i ddefnyddio'r iaith:

Ym mha lefydd mae'r Gymraeg yn rhan o'ch bywyd bob dydd (De ddwyrain)



[Ffynhonnell: Holiadur Mentrau'r de ddwyrain, 2016]


i Yn y cartref

I'r rhai a ymatebodd o Gaerdydd a nododd fod y Gymraeg yn nodwedd o'u bywydau bob dydd, yn y cartref a gyda ffrindiau mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg amlaf. Nododd 70% o bawb a ymatebodd i'r arolwg ar draws y rhanbarth eu bod yn siarad Cymraeg gartref yn rheolaidd.

Yn y cartref hefyd mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn cael eu magu – maen nhw'n fwy tebygol o fod yn rhugl na'r rhai a ddysgodd siarad Cymraeg yn yr ysgol.

Ar draws Cymru, cyfradd drosglwyddo'r Gymraeg i blant mewn cartrefi lle mae dau riant yn gallu siarad Cymraeg yw 82%. Yng Nghaerdydd, 84% yw'r gyfradd hon. Mae hyn yn golygu, mewn cartrefi lle mae plant 3 i 4 blwydd oed, gyda dau riant yn gallu siarad Cymraeg, bod 84% o'r plant hefyd yn cael eu cyflwyno i'r iaith.


Trosglwyddo'r iaith mewn cartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg (Caerdydd)



[Ffynhonnell: Comisiynydd y Gymraeg/Statiath]

Mae'n werth nodi'r cynnydd hefyd yn y cartrefi lle mae un o'r ddau riant yn siarad Cymraeg – o 41% i 49% sydd hefyd yn uwch na'r gyfradd genedlaethol o 45%.

Tabl 5: Trosglwyddo'r iaith i blant yn y cartref

Caerdydd: % o blant Cymraeg 3 i 4 oed

[Ffynhonnell: Comisiynydd y Gymraeg/Statiath]

Mae'n bosibl bod cyfle o hyd fodd bynnag i'r Fenter, ar y cyd â mudiadau eraill sy'n darparu gwasanaethau teuluol yn lleol – Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin, Teuluoedd yn Gyntaf, yr Urdd, Cymraeg i Oedolion, Dechrau'n Deg a Chymunedau'n Gyntaf – gael mwy byth o ddylanwad yn y maes hwn, drwy edrych ar y cyfleoedd ar draws y sector.

ii Y Gymuned

Yn y de ddwyrain, lle mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol ym mhob cymuned ddaeryddol, mae cynnal a hwyluso cymunedau o siaradwyr Cymraeg ar draws pob ystod oedran yn hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol i'r iaith.

Mae sawl ystyr i gymuned pan fyddwn ni'n sôn am siaradwyr Cymraeg wrth gwrs. Mae cymuned yn fwy na lleoliad daeryddol, mae'n bodoli ar draws ffiniau ardal a rhanbarth, a bellach gyda chyfryngau cymdeithasol, gellid dadlau ar un lefel nad oes ffiniau i gymuned Gymraeg o'r fath. Mae'r Gymraeg yn rhywbeth sy'n uno pobl yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae'n nodwedd ychwanegol ar hunaniaeth sy'n creu cyswllt rhwng pobl ac sy'n sbarduno gweithgaredd a rhyngweithio.

Rydym yn lwcus yng Nghaerdydd bod llawer o ddigwyddiadau a chyfleoedd i wneud hynny yn barod. Dwi ddim yn siwr os ydi hyn yn gyson ar hyd a lled y ddinas ond o leia mae'r Hen Lyfrgell yn ganolog i bawb. Dwi ddim yn siwr os ydi rhai sydd ond yn siarad mymryn o Gymraeg yn teimlo y gallant ymuno fewn neu os ydynt yn ymwybodol o be sy mlaen. Gobeithio eu bod nhw.

Dyweddodd 91% o ymatebwyr Caerdydd eu bod wedi mynd i ddigwyddiad a drefnwyd gan Fenter Caerdydd. Dyma'r nifer uchaf o blith Mentrau'r De Ddwyrain ac mae'n adlewyrchu ystod eang gweithgareddau Menter Caerdydd ar un llaw a llwyddiant ei dulliau hyrwyddo a marchnata ar y llaw arall. Mae tua 6,000 o drigolion Caerdydd wedi cofrestru â bas data e-bost e@chlysur ac yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a digwyddiadau. O ran teithio ymhellach na'u cymunedau eu hunain, dywedodd 43% o ymatebwyr Caerdydd eu bod wedi mynd i ddigwyddiad a drefnwyd gan Fenter iaith mewn ardal arall.

Mae ymchwil wedi dangos bod sawl ffactor yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned. Yn gyntaf, er bod gan yr iaith statws swyddogol, mae'n iaith leiafrifol ac nid yw'n amlwg felly fel iaith gymunedol yn yr

ardal hon. Wrth gwrs, mae hyn yn golygu prinder cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Dyma ymatebion rhai o siaradwyr Cymraeg Caerdydd i'r holiadur:

- 'Mwyafrif cymdogion yn ddi-Gymraeg. Meddygfa, deintydd, fferylllydd, llyfrgell, cynghorwyr lleol ac aelod seneddol – dim Cymraeg
- Yng Nghaerdydd, rhaid i mi dreulio hanner y dydd yn siarad fy ail iaith.'
- Hoffwn i gael cyfle i siarad Cymraeg mewn siopau mawr megis Tesco, sydd â hen ddigon o arian i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gweithio iddynt. Nid oes diddordeb gen i yn yr Eisteddfodau, twmpathau a chwisiau tafarn ystrydebol.
- Ers i dafarn a Clwb y Diwc gau er enghraifft does dim llawer o gymdeithasu yn Gymraeg yn y gymuned yn Nhreganna (i oedolion). Nifer o wasanaethau e.e. meddygfa ddim gyda staff derbynfa dwyieithog.
- Mae'n ymddangos ambell waith bod Menter Caerdydd yn canolbwyntio ar deuluoedd ac ar ddigwyddiadau addysgiadol/diwylliannol – sy'n glodwiw iawn, ond mae 'na lot o oedolion ifanc yng Nghaerdydd sy'n mwynhau'r un math o bethau â'r boblogaeth ddi-Gymraeg, ond falle eisiau gallu gwneud y pethau hynny yn Gymraeg

Ffactor amlwg arall sy'n effeithio ar ddefnydd o'r Gymraeg, yw hyder pobl i ddefnyddio'r iaith ac a yw pobl wedi arfer defnyddio'r Gymraeg – fe wyddom fod pobl sydd ddim yn rhugl yn llai tebygol o siarad Cymraeg bob dydd a mynychu digwyddiadau Cymraeg, ac mae canlyniadau'r holiadur yn dangos bod hyn yn wir i rai yng Nghaerdydd:


- dw'i tamaid bach yn swil i defnyddio Cymraeg
- I try to, as I am gaining in confidence, though it is sometimes difficult to keep the conversation going. It depends on the situation and the person I am speaking to. Once it slips into English it is sometimes hard to get back to Welsh.

Gofynnodd yr holiadur beth fyddai'n helpu i ehangu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac roedd nifer o ymatebion o Gaerdydd yn adleisio'r un themâu:

- 'cynnwys pawb o'r gymuned, nid dim ond apelio at y Cymry cadwedig'
- Ei wneud yn rhywbeth mwy 'normal' yn lle ei fod yn rhywbeth 'arbennig'
- 'It would be nice to see activities that are not necessarily related to 'pethau Cymraeg' – in a predominantly English speaking area, the language needs to become part of everyday life and relate to activities that learners would become involved with out of choice anyway'
- Byddai'n braf yng Nghaerdydd pe byddai pobl sy'n gweithio mewn siopau neu bwytai yn gwisgo bathodynnew Cymraeg, er mwyn gwybod fod rhywun yn medru siarad Cymraeg
- Mae Menter Caerdydd yn gwneud gwaith gwych fel y mae. Mwy o'r un peth sydd angen.

O ran cyfranogiad, mae'n werth nodi'r ganran o bobl o Gaerdydd sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan wirfoddol yn eu cymuned, sef 47%, (sy'n cyfateb â ffigur y rhanbarth cyfan).

Ydych chi'n cymryd rhan yn wirfoddol yn eich cymuned?



Roedd y gweithgareddau gwirfoddol yn amrywio'n fawr ac yn amlygu sgiliau a diddordebau eang: gwaith cadwraeth; gwaith gyda'r capel neu'r

eglwys; cymdeithasau rhieni ac athrawon; clybiau chwaraeon; cymorth cyntaf, a llawer mwy.

O blith y sawl a nododd nad oedden nhw'n cymryd rhan yn wirfoddol yn y gymuned y prif resymau oedd diffyg amser oherwydd gofynion teulu a gwaith. Yn eu hymatebion fodd bynnag, daeth hi'n glir bod nifer yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol i achosion gwahanol, er nad oedden nhw eu hunain yn ystyried hyn fel gwirfoddoli (ee. ymgyrchu dros ysgol Gymraeg; gweithgareddau i'r capel; clybiau ar ôl ysgol)

Fodd bynnag, mae'n werth nodi dymuniad i gyfrannu mewn rhyw ffordd, dyma ddwy enghraifft:

- Byddai gen i ddiddordeb gwirfoddoli er lles y Gymraeg
- Bydden i eisiau ond does dim llawer o wybodaeth am fy nghymuned i

Felly, mae parodrwydd yn bodoli ymhlith y sawl nad ydyn nhw'n gwirfoddoli'n ffurfiol ar hyn o bryd, sy'n awgrymu bod cyfle posib i'r Fenter ehangu a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli mewn meysydd gwahanol ac mewn ffyrdd gwahanol i'r syniad arferol o wirfoddoli.

iii Addysg

Fel mae Cyngor Caerdydd wedi'i gydnabod yn ei gynllun strategol y Gymraeg mewn addysg, mae dilyniant o'r blynyddoedd cynnar i gynradd ac yna o'r cynradd i'r uwchradd ac ymlaen i fyd gwaith yn hollbwysig. Mae gan Gaerdydd 16 ysgol gynradd Gymraeg a 3 ysgol uwchradd Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'r galw am addysg feithrin Gymraeg yn parhau i gynyddu ac mae gan Gaerdydd 14 o Gylchoedd Meithrin ac 8 o grwpiau Ti a Fi. Mae rhai o'r Cylchoedd yn derbyn cyfraniad gan gynllun Dechrau'n Deg sy'n ceisio hybu llythrennedd a rhifedd ymhlith plant oed meithrin sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Ar draws Cymru gyfan, mae tua 22% o blant yn cael addysg gynradd Gymraeg, gyda rhyw 17% o ddisgyblion yn cael addysg uwchradd Gymraeg. Ond yn y sector addysg bellach mae'r ganran o dan 5%, ac mae hyn yn debyg o ran addysg uwch hefyd.

Rhwng 2001 a 2011 roedd Caerdydd wedi gweld cynnydd yn nifer y plant sy'n cael addysg Gymraeg ac mae'r galw wedi parhau.

Tabl 6: Cynnydd yng nghanran y plant 7 oed yng Nghaerdydd sy'n derbyn addysg Gymraeg

2001	2011
9.8%	15.9%

Yn 2014 gosododd y Cyngor darged o sicrhau bod 16.4% o blant 7 oed yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2018.

Mae un peth yn dod i'r amlwg wrth edrych ar ffigurau addysg Gymraeg Caerdydd a'r rhanbarth i gyd, ac mae hyn yn creu heriau gwahanol i'r awdurdod lleol ac i'r Fenter. Ar y llaw arall, mae modd ffocysu ar gyfleoedd posibl hefyd.

Os byddwn yn edrych ar ganran siaradwyr Cymraeg 5-14 oed yn Nhabl 4, rydym yn gweld bod canlyniadau'r Cyfrifiad yn awgrymu bod mwy o siaradwyr Cymraeg ymhlith plant oed ysgol Caerdydd nag sy'n derbyn addysg Gymraeg. Mae'n debygol felly bod rhai rhieni plant sy'n cael

gwersi Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi nodi ar ffurflen y Cyfrifiad fod eu plant yn siarad Cymraeg. Gellid dadlau bod hyn yn adlewyrchu balchder yn yr iaith, a ffydd mewn addysg i ddarparu'r sgiliau hynny.

Os yw'r balchder a'r ffydd yma'n bodoli felly, mae'n ymddangos nad yw'r system addysgu Cymraeg fel ail iaith yn ateb y galw, oherwydd os edrychwn ar y tabl hwn sy'n nodi'r un garfan o'r boblogaeth 10 mlynedd yn ddiweddarach:

Siaradwyr Cymraeg Caerdydd	2001	2011
10-14 oed	31.0%	
20-24 oed		10.2%

Yma, gwelwn awgrym nad yw nifer o'r disgyblion ysgol oedd yn 10-14 oed yn 2001 wedi gallu cadw'r sgiliau Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol. Mae'r ffigur diweddaraf yn nes at y ganran o'r boblogaeth oedd yn derbyn addysg Gymraeg fel iaith gyntaf.

Wrth gwrs, mae mwy nag un ffactor yn gyfrifol am y newid, fel siaradwyr Cymraeg ifanc yn gadael yr ardal a myfyrwyr a phobl oedran gwaith yn dod i'r ardal o lefydd y tu allan i Gymru, ond mae'n tanlinellu'r pwynt na ddylid gorddibynnu ar addysg i greu a chynnal siaradwyr Cymraeg heb fod yna gynllunio strategol rhwng nifer o asiantaethau a phartneriaid i wella'r ddarpariaeth addysg ei hun, ac ehangu cyfleoedd y tu allan i fyd addysg ac i mewn i'r gweithle.

O ran defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg y ar ôl gadael yr ysgol, mae'n gyfnod tyngedfennol o ran sefydlu patrymau defnydd. Yn ôl yr Arolwg Defnydd, *'gwelwyd eisoes bod y rhai 16 i 29 oed yn llai tebygol nag unrhyw grŵp oedran arall o siarad Cymraeg bob dydd'*.

Yn ôl ymchwil Prifysgol Bangor, mae bwlch amlwg mewn darpariaeth Gymraeg i bobl ifanc hyn:

'Gellid awgrymu bod hyn yn peryglu'r dilyniant a'r cynnydd ieithyddol o'r sector addysg ac yn atgyfnerthu canfyddiad pobl ifanc mai iaith addysg yn unig yw'r Gymraeg.'

Nododd nifer o'r rhai wnaeth ymateb i'r holiadur fod cyfleoedd yn brin i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i fyd addysg:

- 'Oherwydd nad ydynt yn gweld bywyd bob dydd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio, maent yn gweld mai dim ond yn yr ysgol y mae defnyddio'r iaith Gymraeg - mae hyn yn rhwystr enfawr!!
- Cael ateb Cymraeg gan fwy nag un gweithiwr yn siopau Lidl ac Aldi. Roeddent wedi mynychu ysgolion cyfun yn y brifddinas ond ddim yn credu bod eu Cymraeg yn ddigon da i siarad nawr ond roeddent yn iawn a'r cyfan sy angen yw cefnogaeth i'w ddefnyddio

Yn ogystal â gwaith y Fenter gyda'r garfan hon, mae partneriaid fel yr Urdd yn cyfrannu at ddefnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc hyn yr ardal ac mae cyfleoedd hefyd i wasanaeth ieuenctid y cyngor yn y maes hwn i gydweithio a manteisio ar yr arbenigedd rhwng y Fenter a'r mudiadau eraill. Petai buddsoddiad pwrpasol, gallai'r Fenter gynorthwyo'r Cyngor i wneud mwy gyda'r ystod oedran hwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai modd manteisio ar raglenni gwirfoddoli sy'n bodoli eisoes ym myd addysg, er enghraifft Bagloriaeth Cymru a Gwobr Dug Caeredin, i gyflwyno pobl ifanc i'r syniad o gyfrannu at eu cymunedau drwy wirfoddoli ac ehangu ar y gwaith mae'r Fenter eisoes yn ei gwneud gyda gwirfoddolwyr ifanc gyda Thafwyl a'r Hen Lyfrgell er enghraifft.

iv Dysgu Cymraeg

Rwy'n teimlo bod angen i Gymry Cymraeg groesawu dysgwyr Cymraeg a gwneud iddynt deimlo yn gartrefol ac yn hyderus drwy sgwrsio a hwy yn Gymraeg...os am gadw'r iaith yn fyw, ag yn agored i eraill, rhaid inni ei rhannu a'i gwneud yn ddeniadol, agored i bawb

Ar hyn o bryd, Canolfan Cymraeg i Oedolion sy'n arwain holl ddarpariaeth dysgu Cymraeg ôl-16 yn y gymuned. Mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda llawer o sefydliadau er mwyn cynnig dewis eang a phrofiadau dysgu hyblyg. Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg mae'r Ganolfan yn darparu oddeutu 250 o gyrsiau ar bob lefel gyda channoedd o bobl yn dysgu o ddechreuwr pur i gyrsiau hyfedredd. Mae cyrsiau hefyd i ddysgwyr mewn gweithleoedd.

O'r bobl wnaeth ymateb i'r holiadur yn ardal Caerdydd, dim ond 7% ohonynt a nododd eu bod yn ddysgwyr. Er hynny, yr hyn sy'n glir yn yr ymatebion yw awydd mawr i ymarfer ac ehangu eu cyfleoedd i siarad Cymraeg. Mae hefyd yn glir bod angen amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd y tu allan i ddarpariaeth fwy ffurfiol Cymraeg i Oedolion a llawer mwy o bontio gyda digwyddiadau i siaradwyr Cymraeg rhugl ar gyfer dysgwyr.

- In work people don't see me as a Welsh speaker. A combination of confidence and opportunity is the issue.
- Targedu pobl ifanc – gweithgareddau i dynnu dysgwyr a'r iaith gyntaf at ei gilydd
- More variety of courses, more availability of courses/activities in the evenings, a 'buddy system' to match learners of the same ability in the community... troubleshooting sessions to help with problem areas, better geographical spread of meetings/activities
- Needs to be integrated so that learners gain confidence and expand vocabulary to try their Welsh outside the classroom
- I think yr Hen Lyfrgell is a great idea for learners who want to build their confidence in a safe environment

Mae hyn yn amlygu cyfleoedd posibl i'r Fenter a swyddogion dysgu anffurfiol o'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion weithio ar y cyd i drefnu mwy o weithgareddau amrywiol, neu i weithio mewn partneriaeth ag eraill i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli i ddysgwyr mewn prosiectau neu fentrau bach yn lleol er mwyn magu hyder a'u hannog i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned.

Yn yr arolwg hefyd, gofynnwyd i bawb am eu profiadau o ran digwyddiadau amrywiol, gyda 91% o ymatebwyr Caerdydd yn dweud eu bod wedi mynychu digwyddiad gan y Fenter a 42% yn dweud eu bod wedi mynd i ddigwyddiad i ddysgwyr. Mae'n bosibl bod potensial am fwy o gyd-drefnu a chreu mwy o gyfleoedd i gynnwys dysgwyr. Efallai fod cyfleoedd posibl i hwyluso dealltwriaeth y dysgwyr o ambell ddigwyddiad, a fydd yn cynyddu eu hyder a'u mwynhad ynghyd ag ymwybyddiaeth siaradwyr Cymraeg rhugl o'r modd y gallan nhw helpu dysgwyr gyda'r iaith. Mae'n faes y mae'r Ganolfan wedi adnabod fel cyfle i'w ehangu.

v Gweithle

Yn 2013, cynhaliwyd ymchwil i anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector yng Nghymru (Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol, Lletygarwch, Creadigol, Gwasanaethau Cyllid a Phroffesiynol, Manwerthu, Bwyd-amaeth ac Adeiladu) ac fe nodwyd:

Er bod darparu addysg cyfrwng Cymraeg ynddo'i hun yn rhan hollbwysig o'r ymdrech i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ystyrir bod y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn faes hanfodol er mwyn symud tuag at gymdeithas ddwyieithog.

Mae'r maes gofal plant yn enghraifft amlwg lle mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu dwyn i mewn i weithle penodol i ateb anghenion clir mewn maes lle mae'r galw yn cynyddu. Mae'r Fenter ei hun yn cynnal gweithgareddau i hybu cyflogaeth a chyfleoedd gwaith i weithlu Cymraeg, ac mae hyn yn cynnig sail i drafodaethau pellach ymhlith rhanddeiliaid yn enwedig yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Safonau yn gofyn bod y Gymraeg yn cael lle mwy amlwg yn y gweithle, ac mae'r Cyngor Sir yn benodol yn mynd i'r afael â'r gwaith hwn gyda mwy o gyfleoedd i ddysgu ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Yn ôl yr Arolwg Defnydd, mae siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio i'r sector cyhoeddus yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr, o gymharu â siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y sector preifat.

Yn yr arolwg o'r wyth sector yn 2013 nodwyd bod 'gan ddau draean (66 y cant) o'r cyflogwyr staff â sgiliau Cymraeg, a dywedodd ychydig dros draean ohonynt fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle (35 y cant)'.

O safbwynt yr holiadur a gynhaliwyd wrth lunio'r proffil hwn, nododd 54% o'r rhai a ymatebodd fod cyfle ganddyn nhw i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Mae'n ymddangos bod proffil y Gymraeg yn y gweithle yn cynyddu yn raddol, gyda chymorth Safonau'r Gymraeg a gwaith hyrwyddo ar lefel leol.

Yn ôl yr Arolwg Defnydd roedd bron i dri chwarter y gweithwyr yn y sector cyhoeddus o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i ddefnydd o'r Gymraeg o'i gymharu â 41% yn y sector preifat

Ond ni ddylid cymryd y shifft cadarnhaol hwn yn ganiataol, mae gwaith i'w wneud o hyd, i ddiogelu hawliau siaradwyr Cymraeg yn y gweithle ac i gynyddu ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg fel sgil.

- Dwi'n gweithio mewn lle nad yw'n bleidiol dros y Gymraeg. Pob dydd dwi'n teimlo fy mod i'n gorfod gwneud rhyw fath o safiad dros yr iaith. Dwi'n teimlo nad yw hyn yn helpu fy ngyrfa, ond bod yn rhaid i mi wneud neu os na byddai'r Gymraeg hyd yn oed yn llai gweladwy na beth ydyw yno nawr. Gall bod yn bleidiol dros yr iaith deimlo'n ynysig iawn pan nad oes cefnogaeth.

Yn yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yn 2013, nodwyd bod prinder sgiliau yn broblem i gyflogwyr yng Nghymru, gyda sgiliau cynllunio a threfnu yn cyfrif am 57% o'r bylchau mewn sgiliau, ond roedd prinder sgiliau Cymraeg (llafar ac ysgrifenedig) i'w briodoli, yn rhannol o leiaf, i dros chwarter yr holl fylchau sgiliau mewn swyddi yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, efallai fod achos dros gryfhau gwaith gyda phartneriaid i hyrwyddo a datblygu sgiliau yn benodol ar gyfer y gweithle.

Yn ôl yr Arolwg Defnydd roedd 52% o siaradwyr Cymraeg Caerdydd oedd â swydd ddisgrifiad yn nodi bod gofynion sgiliau Cymraeg yn eu disgrifiadau swydd

Ar ochr arall y geiniog, fel y nodwyd eisoes, mae nifer o'r ymatebwyr i'r holiadur wedi pwysleisio'r angen i allu adnabod siaradwyr Cymraeg wrth ddelio â phobl wyneb yn wyneb mewn sefydliadau cyhoeddus a busnesau a siopau. Mae galw am hyrwyddo bathodynnau iaith gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

- Oni bai am fathodynnau does dim ffordd o wybod pwy sy'n siarad Cymraeg. Pan mae bathodynnau yn weladwy byddaf yn achub ar y cyfle bob tro

vi Sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol

Mae gan y Fenter gyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol â lluo o sefydliadau ar draws yr holl sectorau yn y ddinas a chymysg yw eu defnydd o'r Gymraeg. Nododd un ymatebwr o Gaerdydd yr angen i edrych ar y maes hwn:

'Gwasanaethau Cymraeg sy'n bwysig, mae'r sefyllfa ddiwylliannol a chymdeithasol yn gymharol iach'

Mae ymchwil diweddar gan Gyngor ar Bopeth wedi amlygu'r rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg a'r hyn sy'n effeithio ar ffydd pobl mewn gwasanaethau. Roedd y rhwystrau hyn yn cynnwys diffyg dewis Cymraeg amlwg, diffyg gwybodaeth a chysondeb, a'r ffaith bod Saesneg yn cael ei chyflwyno fel yr iaith gryfaf, neu'r iaith ddiofyn yn aml iawn.

Yn ôl yr Arolwg Defnydd, mae ychydig dros hanner y siaradwyr Cymraeg yn ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus, ac mae siaradwyr Cymraeg sy'n siarad yr iaith bob dydd, ddwywaith yn fwy tebygol o wneud hynny.

Gofynnodd yr holiadur i ymatebwyr faint o ffydd oedd ganddyn nhw mewn gwahanol sefydliadau i wneud y gorau drostyn nhw o ran y Gymraeg. Roedd yr ymatebion yn amrywio o ardal i ardal. Yn amlwg mae profiad personol neu ganfyddiad yn dylanwadu ar yr ymateb, ond mae'n ddiddorol gweld y ddelwedd sydd gan y sefydliadau hyn ymhlith y garfan hon o siaradwyr Cymraeg.

Tabl 7: Ffydd pobl mewn sefydliadau i wneud y gorau dros y Gymraeg (Cyfanswm 'llawer iawn' a 'gweddol')

Sefydliad	Caerdydd	Rhanbarthol
Cyngor Sir	45%	41%
Cyngor Cymuned	14%	20%
Llywodraeth Cymru	76%	74%
Gwasanaeth Iechyd	39%	36%
Elusennau	40%	34%
Archfarchnadoedd	32%	27%
Banciau	40%	27%
Swyddfa'r Post	36%	30%
Asiantaethau fel y DVLA	39%	42%
Llywodraeth Prydain	9%	12%

Roedd ymatebwyr Caerdydd yn nodi amrywiaeth o brofiadau gyda gwahanol sectorau:

- Ar y cyfan mae'n weddol hawdd defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau Cymreig ond mae'n anodd iawn wrth ddelio â sefydliadau Prydeinig. Dim ond rhai tudalenau / ffurflenni ar gov.uk sy'n ddwyieithog ac fel arfer dyw'r tudalenau heb eu diweddarau neu ddim yn gweithio...enghraifft diweddar oedd gweud cais am basport newydd.
Hefyd mae bwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro yn wael iawn hefyd - byddai modd gweud lot o bethau safonol (e.e. llythyron apwyntiad) yn ddwyieithog dros nos heb gost na threfferth.
- Dwi'n lwcus bod sawl GP yn y surgery lleol yn siarad Cymraeg ond dyna'r unig lleoliad proffesiynol/masnachol ble dwi'n gallu siarad Cymraeg yng Nghaerdydd.
- Eisiau gweld cefnogaeth gyffredinol yn cael ei droi i wethredu ymarferol o fewn y gwasanaethau.
- Mae llinell ffôn Gymraeg, Cyngor Caerdydd yn ardderchog, a byddaf bob amser yn ei ddefnyddio.
- roedd person di-Gymraeg yn asesu datblygiad ieithyddol fy mhlant ar adeg pan roedden nhw'n uniaith Gymraeg.
- Mae'r ffordd mae'r Swyddfa Bost ar ei newydd wedd (h.y. fel cwmni preifat) yn sarhau'r Gymraeg yn amlwg. Mae arwyddion

newydd yn cael eu codi'n rhy aml yn uniaith Saesneg. Mae enghreifftiau di-ri ar draws Caerdydd.

vii Cyfryngau Cymdeithasol

Rhwydwaith cymunedol arall wrth gwrs yw un nad yw'n ddaearyddol ei natur fel nodwyd uchod. Mae'n werth crybwyll arferion siaradwyr Cymraeg o safbwynt eu defnydd o'r iaith ar y we, naill ai fel cyfrwng cyfathrebu rhwng teulu a ffrindiau neu'n ehangach o safbwynt y defnydd posibl y gall y Fenter ac eraill ei wneud o gyfryngau cymdeithasol wrth gyfathrebu a hyrwyddo.

Yn ôl astudiaeth ymchwil Prifysgol Bangor *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned*, nodir bodolaeth cymuned Gymraeg ar-lein 'fel lleoliad newydd i ddefnyddio iaith a datblygu rhwydweithiau ieithyddol ehangach'.

Mae'r Arolwg Defnydd hefyd yn talu sylw i gyfryngau cymdeithasol yng nghyd-destun defnydd, gan nodi mai ychydig dros hanner y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg a'r Saesneg wrth anfon negeseuon testun a bod rhwng 12-18 y cant o'r holl siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio Twitter a Facebook yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg a'r Saesneg.


Mae'r Fenter wedi adnabod yr angen i sicrhau lle amlwg ym myd technoleg er mwyn hwyluso'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Mae'n achub ar y cyfle i hyrwyddo'i gwaith ar draws nifer o blatfformau – o'r papur bro a gorsafoedd radio a theledu amrywiol y ddinas i You Tube, Instagram a Twitter er enghraifft. Mae gan y Fenter 6000 o danysgrifwyr i'w gwasanaeth e-bost ac mae'n anelu at sicrhau 10,000 erbyn 2019. Yn ogystal, mae'n rhagweithiol wrth gefnogi mwy o gynnwys ar-lein yn Gymraeg.

Yn ogystal â'r Fenter, mae sawl un o'i phartneriaid hefyd yn adnabod potensial cyfryngau newydd i ddenu cynulleidfaoedd Cymraeg, ac mae Pobl Caerdydd yn enghraifft o'r modd y mae hyn yn datblygu yn yr ardal, heb sôn am unigolion niferus sy'n blogio am fywyd yn y ddinas ac ymgyrchoedd lleol sy'n uno carfanau o siaradwyr Cymraeg mewn ffyrdd newydd.

O ran siaradwyr Cymraeg ardal Caerdydd wnaeth ymateb i'r holiadur, mae 63% y cant yn dweud eu bod yn defnyddio'r Gymraeg gyda phobl eraill ar gyfryngau cymdeithasol fel Twitter neu Facebook yn rheolaidd

(un ai'n wythnosol neu'n ddyddiol). Mae hyn yn cymharu â defnydd o 48% yn rhanbarth y de ddwyrain yn ei gyfanrwydd.

Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, fel Facebook neu Twitter?



5. Casgliad

Mae'r proffil hwn wedi dwyn ynghyd

- prif ystadegau siaradwyr Cymraeg yr ardal hon
- y prif ofynion statudol sy'n berthnasol i bartneriaid allweddol y Fenter
- nifer o ganfyddiadau ymchwil o safbwynt patrymau defnydd siaradwyr Cymraeg yr ardal
- canlyniadau yr arolwg a gynhaliwyd sy'n amlygu profiadau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn yr ardal

Drwy edrych ar y prif negeseuon sy'n deillio o brofiadau pobl yn yr ardal ochr yn ochr â'r data swyddogol, mae anghenion sawl maes yn dod i'r amlwg:

- yr angen am fwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r ysgol ac ar ôl gadael yr ysgol (o faes hamdden, i fyd gwaith)
- yr angen am fwy o gyfleoedd i gynyddu hyder ac ehangu defnydd siaradwyr Cymraeg di-hyder a dysgwyr mewn sefyllfaoedd newydd
- yr angen i gyflogwyr gydnabod gwerth y Gymraeg i'w gweithleoedd a sicrhau cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg
- yr angen i sicrhau bod y Gymraeg yn fwy amlwg yn y gymuned er mwyn hybu defnydd ehangach – yn glywadwy ac yn weladwy (er enghraifft drwy ddefnyddio bathodynau ac arwyddion iaith Gwaith).

Mae gwaith y Fenter yn y ddinas yn seiliedig ar adnabyddiaeth dda o'i chymuned ac anghenion ei chymuned ac mae'n meddu ar greadigrwydd a hyblygrwydd o ran mynd i'r afael â'r anghenion hynny. Mae gallu gan y Fenter i ymateb yn arloesol i anghenion lleol drwy brosiectau â phartneriaid hen a newydd, gan brofi hyn gyda Thafwyl a datblygiad yr Hen Lyfrgell er enghraifft.

Agwedd arall sydd yn dod i'r amlwg yng ngwaith y Fenter yw nid ymateb i dargedau Llywodraeth Cymru yn unig mae'n gwneud, ond mae'r

gweithgareddau/gwasanaethau a ddarperir gan y Fenter hefyd yn cryfhau ac yn cyfoethogi'r hyn sy'n digwydd yn statudol ar lefel leol i hybu'r Gymraeg a chreu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid ymateb i Safonau'r Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Mwy na Geiriau – lluo ofynion ynglŷn â gwella gwasanaethau a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Bydd disgwyl iddyn nhw hefyd ymateb i unrhyw ad-drefnu llywodraeth leol a goblygiadau hynny i wasanaethau ar draws y rhanbarth. Felly, ni fu amser gwell i bwysleisio pwysigrwydd, cryfder ac arbenigedd y Fenter a'i phartneriaid fel ffynhonnell o gyngor ac arweiniad.

Mae cyfle gan bartneriaid a chyrrff i droi at y Fenter i gyd-gynllunio'n strategol ar draws nifer o sectorau i hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd, gyda chyfleoedd am gydweithio ar draws sawl maes, ee

- Addysg
- Gwasanaethau ieuencid
- Hamdden
- Iechyd a Gofal
- Trechu tlodi
- Datblygu economaidd
- Gwaith a sgiliau
- Gwirfoddoli

Nod yr argymhellion sy'n dilyn yw amlygu llais y Mentrau a'r anghenion sy'n codi er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg a defnydd y Gymraeg yn y cymunedau ar draws yr ardal hon. Nid at sylw'r Fenter yn unig yw'r argymhellion hyn. Maen nhw'n crynhoi yr hyn sydd angen digwydd ar lefel ehangach na'r Fenter ei hun, er mwyn creu sefyllfa gryfach i'r Fenter allu parhau i ddatblygu ac ehangu ei darpariaeth yn y ffordd mwyaf strategol ac effeithiol.

6. Argymhellion

Mae'r argymhellion hyn yn crynhoi'r meysydd sydd angen sylw pellach yn ôl yr hyn sy'n dod i'r amlwg yn y proffil ac maen nhw'n berthnasol i'r holl bartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd ynghlwm ag ymestyn cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg:

Cyffredinol

1. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod anghenion rhanbarthol yn cael eu hystyried yn llawn a'u hymgorffori i'r Strategaeth Iaith nesaf, gan gydnabod potensial am dwf yn nifer a chanran siaradwyr Cymraeg y rhanbarth hwn.
2. Dylai'r Awdurdodau Lleol gynllunio a gweithredu Strategaethau Hybu a Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gyda'u Menter Iaith leol a phartneriaid eraill. Mae cyfleoedd i weithio gyda'r Fenter leol i gydlynu prosiectau ac ymchwil i fylchau mewn gwasanaethau a darpariaethau ar draws y sir.
3. Ar sail eu cynlluniau/strategaethau, dylai Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru ddiogelu adnoddau digonol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg, ac adnoddau digonol i hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn ystyried y Gymraeg ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn effeithiol wrth ymateb i'w gofynion statudol o dan y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.
5. Dylai'r Mentrau Iaith drafod gyda'u partneriaid sut i atgyfnerthu rôl y Fforwm Iaith er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial y corff hwn i'w cynorthwyo mewn ffordd ddeinamig a strategol i'r dyfodol.

Y Cartref

6. Dylid sefydlu eglurder o ran cynllunio a chydweithio strategol yn lleol ac yn rhanbarthol rhwng yr holl fudiadau sy'n darparu gwasanaethau teuluol, gan gynnwys Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin, Teuluoedd yn Gyntaf, yr Urdd, Cymraeg i Oedolion,

Dechrau'n Deg a Chymunedau'n Gyntaf. Dylai'r Llywodraeth sicrhau eglurder pellach wrth ddyrannu targedau a chyllid i fudiadau yn y maes hwn.

7. Dylid datblygu a chefnogi cynlluniau cefnogi rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref i godi hyder a gallu i siarad Cymraeg.
8. Dylid cynllunio lleoliadau gofal plant yn strategol gyda phartneriaid er mwyn datblygu darpariaeth cynlluniau gofal cyflawn yn Gymraeg sy'n ymateb i anghenion teuluoedd yn lleol.
9. Dylai'r Mentrau a'u partneriaid gyd-drefnu digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith teuluoedd.

Y Gymuned

10. Dylai Awdurdodau Lleol a'r Mentrau drafod a chynllunio gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol sydd wedi'u targedu'n effeithiol i hwyluso a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gyda'u partneriaid eraill.
11. Dylai cynlluniau Trechu Tlodi, gan gynnwys Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg gynllunio rhaglenni a datblygiadau gweithredol cyfrwng Cymraeg mewn partneriaeth â mudiadau lleol.
12. Dylai'r Mentrau a'r partneriaid ystyried sut i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli mwy amrywiol i gwmpasu cyfleoedd i bobl ifanc a dysgwyr.

Addysg

13. Dylai polisïau Awdurdodau Lleol amlygu bod mynediad i addysg Gymraeg yn flaenoriaeth gan sicrhau mynediad teg a chyfartal i bawb. Dylent hefyd sicrhau na fyddai unrhyw doriadau trafndiaeth yn cael effaith andwyol ar niferoedd sy'n gallu cael mynediad i addysg Gymraeg.
14. Mae angen arweiniad cadarn gan y Llywodraeth i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg yn lleol ac yn rhanbarthol i osod targedau pellgyrhaeddol wrth gynllunio twf a dilyniant mewn Addysg Gymraeg a chynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg.

Plant a Phobl Ifanc

15. Dylai Cyngorau Sir a Llywodraeth Cymru weithio ar y cyd â'r Mentrau i sicrhau bod y buddsoddiad a thwf mewn addysg Gymraeg yn y rhanbarth yn cael eu cyfoethogi a'u cefnogi gan gyfleoedd hamdden a chymunedol amrywiol cyfrwng Gymraeg i blant a phobl ifanc.
16. Dylai Cyngorau Sir ystyried heriau daearyddol yr ysgolion cyfun Gymraeg yn eu hardaloedd o ran targedu pobl ifanc y tu allan i'r ysgol oherwydd maint eu dalgylchoedd, a chynllunio'n ymarferol i ymateb i'r anghenion hynny.
17. Dylai partneriaid gyd-drafod i sicrhau bod darparwyr arbenigol o fewn y maes yng Nghymru (Plant yng Nghymru, Clybiau Plant Cymru ayb) yn cynnig gweithgareddau a hyfforddiant cyfrwng Gymraeg.
18. Dylai'r Mentrau a'r partneriaid sicrhau arweiniad cadarn i Wasanaethau Ieuencid Awdurdodau Lleol o safbwynt darparu gwasanaethau cyfrwng Gymraeg digonol gan gynnwys cyfleoedd wythnosol, gwasanaethau cefnogi arbenigol a chyfleoedd ymgynghori a chyfranogi.
19. Dylid gwrandao ar lais a barn siaradwyr ifanc y Gymraeg eu hunain wrth gynllunio, trefnu, a darparu fel bod ganddynt fewnbwn llawn.

Dysgu Cymraeg

20. Mewn cydweithrediad â phartneriaid Cymraeg, Awdurdodau Lleol ac Ysgolion, mae lle i'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion gynnog rhaglen o ddsbarthiadau a gweithgareddau heb ogwydd ar gymwysterau, ond yn hytrach, bwyslais ar wirfoddoli a defnyddio'r iaith yn gymunedol.
21. Mae angen sicrhau darpariaethau a chyfleoedd am ddim i bobl sydd am ddysgu Cymraeg mewn ardaloedd di-freintiedig.

Y Gweithle

22. Mewn partneriaeth â'r Mentrau, dylai Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru sicrhau cefnogaeth briodol i gynlluniau pellgyrhaeddol y cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth.
23. Dylai'r Mentrau barhau i hyrwyddo defnydd cyflogwyr o fathodynau Iaith Gwaith i dargedu, adnabod, a dathlu lleoliadau sy'n cyflogi gweithwyr Cymraeg.

Cyfryngau Cymdeithasol

24. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fuddsoddi mewn twf ac argaeledd deunyddiau cyfryngau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg a hybu cynlluniau a phrosiectau lleol ar lefel y Mentrau.
25. Mewn cydweithrediad â'r Mentrau, partneriaid y Gymraeg a datblygwyr cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau Cymraeg, dylid datblygu a gweithredu cynlluniau llawr gwlad lleol i ehangu defnydd cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg.

7. Adnoddau Defnyddiol

Gwefan [Statiaith](#)

[Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15](#) Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg; Tachwedd 2015

[Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned, Astudiaeth Ymchwil](#) Prifysgol Bangor ar ran Llywodraeth Cymru; Hydref 2015

[Hefyd ar gael yn Gymraeg: deall y defnydd a'r diffyg defnydd o'r Gymraeg](#) Cyngor ar Bopeth; Mawrth 2015

[Bwrw Mlaen](#) Llywodraeth Cymru; 2014

[Adolygiad o Waith y Mentrau, y Cynlluniau Gweithredu a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe](#) Prifysgol Caerdydd, 2013

[Cymunedau yn Gyntaf a Dwyieithrwydd: Ateb yr Her](#) Menter a Busnes

[Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector](#) Llywodraeth Cymru 2014